Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru
Y Crynwyr

Meeting of Friends in Wales
Quakers

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 26 Chwefror 2011 yn Aberhonddu

2011.01 Addoli Agoriadol a Chroeso
Mae adran 29.01 *Quaker faith and practice* wedi'i darllen yn ystod ein haddoli agoriadol. Mae'n bleser cael croesawu 39 o Gyfeillion yma heddiw, fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fod yn bresennol:

Gogledd Cymru: Frank Brown
Canolbarth Cymru: Tom Brown
De Cymru: Joan Darbyshire
Gororau'r De: Peter Hussey

Penodwyd Christine Lewis yn Henadur.

2011.02 *Calon* a *The Friend*
Mae Gethin Evans wedi cytuno i ysgrifennu adroddiad ar y cyfarfod hwn i *The Friend* ac i adrodd i *Calon*.

2011.03 Ymestyn Allan (i) – Sut y mae Crynwyr yn cael eu gweld? Sut y gallwn ni ymateb?

Mae Alan Thomas wedi'n harwain mewn gweithdy a oedd yn seiliedig ar y cwestiynau a godwyd mewn arolwg a gynhaliwyd gan *Quaker Quest* yn 2009. Bydd y nodiadau a ddarparwyd yn cael eu ffeilio â'r cofnodion hyn. Roedd yr ymchwil am ymwybyddiaeth o'r Crynwyr ymhlith y cyhoedd, ac mae'n amlwg bod gennym lawer i'w wneud o ran hybu ymwybyddiaeth gywir. Mae angen i bobl gael gwybod ein bod yn bodoli, beth rydym yn ei gynrychioli a'n bod yn groesawus. Atodir awgrymiadau o ran gweithredu sydd wedi dod o'r gwaith grŵp ar ddiwedd y cofnodion hyn. Rydym yn diolch i Alan am y cyflwyniad hynod fuddiol hwn.

2011.04 Ymestyn Allan (ii) – adroddiad ar gysylltiad â thîm ymestyn allan *Quaker Life*

Mae Deborah Rowlands a Jules Montgomery, ein swyddog gweinyddol, wedi ymweld â swyddfeydd *Quaker Life* lle y cawsant gyfarfod defnyddiol ag Alastair Fuller, y swyddog Ymestyn Allan newydd.

Mae tair taflen ar heddwch wedi'u cyfieithu a byddant ar gael cyn yr Eisteddfod.

Bydd posteri newydd sy'n canolbwyntio ar heddwch ar gyfer Wythnos y Crynwyr ac rydym yn gobeithio y bydd rhai ohonynt ar gael yn y Gymraeg.

Mae Heddwch a Thystiolaeth Gymdeithasol y Crynwyr yn mynd i gynhyrchu pecyn cymorth heddwch i ysgolion a phan fydd yn barod, hoffem ofyn i'n Pwyllgor Cyhoeddiadau a'n Grŵp Ymgynghori ar yr Iaith Gymraeg ein cynghori a ddylid ei gyfieithu/addasu. Rydym yn gobeithio gwneud penderfyniad yn ein cyfarfod nesaf.

Bydd taflen adnoddau Ymestyn Allan yn nodi eitemau sydd ar gael yn y Gymraeg â draig.

Mae llyfryn bach newydd i'w gael i blant '*Quaker Meeting and Me'*. Penderfynwyd rhwng cyfarfodydd y dylai hwn gael ei gyfieithu a bydd *Quaker Life* yn trefnu cyhoeddi a dosbarthu'r fersiwn Gymraeg.

Ceir gwybodaeth ar y wefan am glystyrau Ymestyn Allan; byddem yn croesawu Cyfeillion sydd â diddordeb mewn Ymestyn Allan ac a ddymunai ffurfio clwstwr yng Nghymru.

Rydym yn diolch i'r grŵp sydd wedi bod yn gweithio ar adnoddau Ymestyn Allan ac yn cytuno bod eu tasg wedi'i gorffen. Rydym yn ddiolchgar i *Quaker Life* am eu cydweithrediad. Rydym yn cytuno mai ein prif gysylltiad ag Ymestyn Allan *Quaker Life* fydd Jules Montgomery, a fydd yn sianelu ceisiadau am gyngor i'n Pwyllgor Cyhoeddiadau a'r Grŵp Ymgynghori ar yr Iaith Gymraeg.

Rydym yn atgoffa Cyfeillion am fodolaeth *Llawlyfr Hyffordd Didreisedd Cymru*, wedi'i gyhoeddi gan Cynefin y Werin ac sydd i'w gael gan Del Harris (Cwrdd Aberystwyth) coney@gn.apc.org.

2011.05 Dathlu Ffordd y Crynwyr (yn cyfeirio at gofnod 2010.32)

Cynhaliwyd cyfarfod yn Nolgellau 15 Ionawr i fynd â'r mater hwn rhagddo. Estynnwyd gwahoddiad agored i'r cyfarfod hwn i unrhyw Gyfaill oedd â diddordeb. Ymhlith y Cyfeillion yn y cyfarfod roedd clercod presennol neu gyn-glercod y Cyfarfod hwn, ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor Cyhoeddiadau a'r Grŵp Ymgynghori ar yr Iaith Gymraeg. Casgliadau'r grŵp hwn oedd y dylid awgrymu dau brosiect i Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree – DVD a llyfr yn y Gymraeg – yn seiliedig ar y deunydd sydd eisoes wedi'i gasglu yn Llwybrau'r Ysbryd. Mae cofnodion cyflawn o'r cyfarfod hwnnw ar gael a byddant yn cael eu ffeilio gyda'r cofnodion hyn. Awgrymir y dylid penodi dau grŵp o bedwar Cyfaill i fynd â'r prosiectau rhagddynt, a dylai un neu ddau Gyfaill o bob grŵp, ar y cyd â Deborah Rowlands, ffurfio bwrdd prosiect i gysylltu'r ddau syniad ac i lunio cynnig i fynd gerbron Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree ym mis Ebrill. Gallai'r ddau grŵp alw ar Gyfeillion eraill am gymorth os bydd angen. Cyn iddo gael ei gyflwyno, dylai ein clercod gytuno ar y cynnig. Mae'r cyfarfod hwn yn cytuno ar y cynigion hyn. Enwebwyd Rhian Parry, Dic Williams ac Awel Jones i grŵp y llyfr a Catherine James a Jane Harries i grŵp y DVD ac rydym yn penodi'r Cyfeillion hyn. Rydym yn penodi Deborah Rowlands, Rhian Parry a Catherine James i ffurfio Grŵp y Prosiect. Rydym yn nodi bod lleoedd gwag yn y grwpiau hyn ac rydym yn gofyn i'n Pwyllgor Enwebiadau gadw mewn cysylltiad â'r grwpiau, i lenwi'r lleoedd.

2011.06 Cydweithio â *Woodbrooke* – Byw Ffordd y Crynwyr (cofnod 2010.33 yn cyfeirio)

Mae Deborah Rowlands wedi cydweithio â Lizz Roe (Arweinydd Rhaglen Woodbrooke oddi ar y safle) i drefnu rhaglen dair blynedd o ddigwyddiadau undydd i'w cynnal mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru. Mae gennym wybodaeth ragarweiniol am gyfarfodydd y flwyddyn gyntaf ar gael heddiw a bydd taflenni unigol ar gael yn fuan. Julia Aspden fydd y cyswllt â Woodbrooke ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

2011.07 Deunydd sydd wedi'i archifo

Mae papurau o'r gorffennol wedi'u rhoi yng ngofal ein harchifydd yn Swyddfa Gofnodion Sir Ddinbych. Mae'r rhain yn cynnwys gohebiaeth o 1982 ymlaen, ffeiliau ynglŷn â'r Prosiect Lletygarwch Ysbrydol, Mae'r Gân yn y Galon, a ffeiliau ynglŷn â strwythurau yng Nghymru a'r Gororau. Mae Jane Brunning, ein harchifydd, wedi cynghori y dylai'r deunydd gael ei storio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn y pen draw a bydd hi'n trefnu bod hyn yn cael ei wneud.

2011.08 Rhestrau Cyswllt (cofnod 2010.36 yn cyfeirio)

Mae gan Jules Montgomery, ein swyddog gweinyddol, restrau cyswllt o Gyfarfodydd Ardal Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru a'r Gororau i'r rheini a'u harchebodd ac i ddeiliaid swyddi

Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Rydym yn gobeithio y bydd gennym rhestr gyswllt i Gyfarfod Ardal De Cymru pan fydd ar gael. Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn ystyried a ddylem barhau â'r system hon.

2011.09 Cyfarfod Dioddefiadau

Mae Stevie Krayer wedi anfon adroddiad atom ar gyfarfod 4 Rhagfyr, sydd wedi cael ei ddarllen i ni. Rydym yn gofyn i Gyfeillion nodi unrhyw effeithiau y maent yn sylwi arnynt yn sgil y toriadau i fudd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus, ac iddynt fod yn barod i drafod y mater hwn yn ein cyfarfod ym mis Mehefin.

2011.10 Materion Ariannol a Materion yr Ymddiriedolwyr.

(i) Rydym yn derbyn yr adroddiad blynyddol a gyflwynwyd gan Gethin Evans. Bydd hwn bellach yn cael ei osod ar y wefan.

(ii) Mae ein trysorydd wedi cyflwyno'r cyfrifon. Byddwn ni'n gofyn am gyfraniadau gan gyfarfodydd ardal ar yr un gyfradd â'r llynedd. Mae'r grant o Gyfarfod Blynyddol Prydain tuag at gymorth gweinyddol i'r cyfarfod hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn ar hyn o bryd. Rydym wedi derbyn y grant eleni, ond mae angen i ni gadw digon o arian yn ein cyfrif i gynnal cyflogaeth ein swyddog gweinyddol, pe na bai'r grant yn cael ei roi i ni y flwyddyn nesaf.

(iii) Llofnodwyr sieciau: rydym yn awdurdodi unrhyw ddwy o Julia Aspden, Lynn Moseley a Christine Trevett i lofnodi sieciau ar ran Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

(iv) Mae ein hymddiriedolwyr wedi cymeradwyo polisi i'r wefan, a fydd yn cael ei osod ar y ddwy wefan; rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau gan Gyfeillion unigol, neu gyfarfodydd ardal neu leol. Dylid anfon unrhyw awgrymiadau o'r fath at Gethin Evans, fel Clerc yr Ymddiriedolwyr.

2011.11 Cytûn a'r Eisteddfod Genedlaethol

(i) Mae Maria Haines wedi'i phenodi gan Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru i gydgysylltu ein presenoldeb ym mhabell Cytûn, a dylai Cyfeillion sydd am helpu yn yr Eisteddfod Genedlaethol gysylltu â Maria (Cwrdd Llangollen).

(ii) Mae Catherine James wedi adrodd ar Cytûn. Mae gan Cytûn anawsterau ariannol o hyd ond efallai y bydd y rhain yn cael eu lliniaru er pan eglurodd yr Eglwys yng Nghymru faint mae Cytûn yn ei wneud ar ran yr eglwysi i gyd. Bydd Catherine yn gweithio yn y Sioe Frenhinol eleni, lle y bydd Cytûn bob amser yn bresennol, ac mae Cytûn yn darparu caplaniaid a fydd yn gweithio yn yr holl ddigwyddiadau a gynhelir ar faes y Sioe. Bydd cyfarfod yn Abertawe 10 Mawrth i gynllunio ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Bydd Alan Thomas yn mynd â'r mater hwn i Gwrdd Abertawe.

2011.12 Pwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru

Bu Lynn Moseley yn mynychu cyfarfod 18 Tachwedd. Pwyllgor ymgynghorol yw hwn gyda chynrychiolwyr o holl enwadau Cymru. Roedd cyfarwyddwr newydd Cymorth Cristnogol, Loretta Minghella, yn bresennol a soniodd am yr hyn roedd hi wedi bod yn ei wneud ers cael ei phenodi. Roedd hi wedi teithio'r byd i weld y gwaith a wneir gan Gymorth Cristnogol a phwysleisiodd ystyriaethau Cymorth Cristnogol i'r dyfodol – Byw ein Ffydd; sefydliad proffesiynol yw e sy'n gwneud gwaith proffesiynol. Cynhelir cynhadledd yng ngogledd Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd a Diwinyddiaeth. Gall Cymorth Cristnogol baru cyfarfodydd â phrosiectau dramor ac mae taflenni ar gael am hyn.

2011.13 Penodi Grŵp Apêl

Mae cyfarfod ardal wedi gofyn i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru benodi grŵp apêl o dan adran 4.25 *Quaker Faith and Practice*. Penodwyd Frank Brown (GC), Kate Binney (DC) a Liza Brown (CC) gan ein clerc a chlerc yr ymddiriedolwyr, gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Enwebiadau. Rydym yn gofyn i'r grŵp weithio'n unol â'r canllawiau a ddarperir gan y Clerc Cofnodi a hysbysu'r cyfarfod a gadarnheir yr apêl ai peidio, ar ôl cwblhau eu tasg. Bydd gwybodaeth a sgyrsiau yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

2011.14 Enwebiadau a Phenodiadau

(i) **Penodiadau rhwng cyfarfodydd.** Cafodd y cyfeillion canlynol eu penodi neu'u rhyddhau rhwng cyfarfodydd

- **Pwyllgor Trefniadau**: Cafodd Dorothy Bell ei rhyddhau; penodwyd Dave Butler yn ei lle i wasanaethu tan 31.12.2013
- **Pwyllgor Enwebiadau**: penodwyd Dorothy Bell i wasanaethu tan 31.12.2013
- Rydym yn nodi mai Ros Morley yw cynullydd y Pwyllgor Cyhoeddiadau bellach ac rydym yn diolch i Barbara Prys-Williams am ei gwaith fel cynullydd.
- Mae Mary Cook wedi'i rhyddhau o'r Pwyllgor Trefniadau ac rydym yn diolch iddi am ei gwasanaeth.

(ii) Penodiadau.

Mae ein Pwyllgor Enwebiadau wedi adrodd i ni. Maent yn enwebu'r canlynol:
i gael ei enwebu i'r Cyfarfod Dioddefiadau – Dave Butler (CC). Rydym yn nodi bod Dave eisoes yn cynrychioli Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru. Rydym yn cytuno i enwebu Dave Butler.

(iii) Galw am enwebiadau

Rydym yn nodi bod y penodiadau canlynol yn wag ac rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Enwebiadau chwilio am Gyfeillion i wasanaethu.
Cyd-glerc (i ddod i ben 2013)
Pwyllgor Materion Rhyngwladol Cytûn - (i ddod i ben 2013)
Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd y Crynwyr (QCCIR) – swydd wag (i ddod i ben 2012)
Aelod Bwrdd Cytûn o fis Hydref 2011
Pwyllgor Trefniadau – swydd wag (i ddod i ben 2011)
Cyfaill i fynychu **Synod Cenedlaethol yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig** yn y Drenewydd ar 13 Mawrth

(iv) Enwebiadau i'r Pwyllgor Enwebiadau:

Rydym yn nodi bod gennym swydd wag o hyd ar y Pwyllgor Enwebiadau – ffefrir iddi gael ei llenwi gan Gyfaill o dde Cymru.

2011.15 Cynhadledd *Quaker Life – 'Being Quaker, Doing Quaker'*

Mynychodd Catherine James y gynhadledd a gynhaliwyd rhwng 19 a 21 Tachwedd. Bydd canlyniadau'r gynhadledd yn cael eu cyhoeddi gan *Quaker Life* fel deunydd astudio. Soniodd Catherine am y rhan greadigol o'r gynhadledd gan roi cyfle i ni i greu drosom ein hunain. Gwnaethom 'bobl bach' i gynrychioli'r ysbryd oddi mewn neu sgwariau creadigol.

Julia Aspden
Clerc

Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 26 Chwefror 2011

Syniadau Ymestyn Allan gan Grwpiau Bach y Gweithdy

Grŵp 1 Sut i gynyddu ymwybyddiaeth am y Crynwyr ymhlith pobl rhwng 18 a 34 oed?

Ffilm/ Twitter – yn cael eu defnyddio gan y grŵp oedran hwn. Cael sylw mewn opera sebon boblogaidd.
Mynd i wyliau - trefnu pabell a baner - byddai hyn yn cyrraedd cynulleidfa eang.
Achub amgueddfa'r Crynwyr yn Nolgellau - i'w defnyddio gyda disgyblion sy'n astudio Yr Ystafell Ddirgel
Dyma blant Thatcher – mae gennym waith i'w wneud fan hyn!
Hysbysebu'r ffaith ein bod yn ymwneud â Masnach Deg, Cymdeithas y Cymod, Greenpeace, ac yn y blaen.
Mae angen llwyfan lle y gall pobl ifainc roi eu syniadau ar brawf.
Cynnal stondin mewn pabell grefft mewn ffeiriau.

Grŵp 2 Sut i gynyddu ymwybyddiaeth am y Crynwyr ymhlith pobl rhwng 18 a 34 oed?

Gweledol: sloganau cryptig ar ochrau bysiau
Opera sebon boblogaidd
Yr ystafell ddirgel – lle maent yn cael y delweddau hyn – ysgolion i ddilyn; ymweliadau ag ysgolion; ymweliadau ysgol â Thai Cwrdd ac yn y blaen.
Sefydliadau pobl ifainc – mynd ati i gymryd rhan
Seibergaffis
Mae pobl ifainc yn credu mai anffyddwyr ydynt oherwydd bod y gymdeithas o'u cwmpas yn seciwlar - nid yw crefydd gyfundrefnol bob amser yn llwyddiannus
Unigoliaeth y gymdeithas fodern
Defnyddio'r We/ Facebook/ Twitter
Gweithredu cymdeithasol/ grwpiau amgylcheddol
Defnyddio 'ysbrydol' yn hytrach na 'chrefyddol' fel term
Mae'r deunydd ymestyn allan presennol yn dda, fformat bach
Tafarnau a Chlybiau; Ffermwyr Ifainc
Tawelwch yn frawychus – addoli sydd wedi'i raglennu?
Cerddoriaeth werin – addasiadau

Grŵp 3 Sut i wneud y rhan fwyaf o bobl (a allai fod wedi clywed amdanom) yn fwy ymwybodol o'r hyn rydym yn ei gredu a'i wneud mewn gwirionedd?

Hysbysebu ar fysiau
Gwefannau da
Presenoldeb yn yr Eisteddfod - cysylltiad â'r Babell Heddwch (yn hytrach na Cytûn [Eglwysi Ynghyd])
Effaith digwyddiadau rhyngwladol e.e. Cadbury yn cael ei brynu
Bod yn llai 'Crynwraidd' yn y ffordd rydym yn delio â'r cyfryngau - bod yn barod i fod yn ddadleuol

Defnyddio 'hawl i ateb' yn y papurau lleol
Recriwtio 'cyfeillion Cyfeillion' (?gyda chardiau aelodaeth?)
Mae'n bwysig nad oes 'amodau'

Grŵp 4 Sut i wneud y rhan fwyaf o bobl (a allai fod wedi clywed amdanom) yn fwy ymwybodol o'r hyn rydym yn ei gredu a'i wneud mewn gwirionedd?

Achub ar bob cyfle i ddefnyddio'r cyfryngau
Achub ar bob cyfle wrth sgwrsio â phobl eraill
Defnyddio personoliaethau e.e. Sheila Hancock
Canfyddiad gweledol – pennau ar bosteri'n iawn e.e. astroffisegydd, ond hefyd beth am daenu perthnasedd a dangos gyrwyr bysiau ac yn y blaen. Mae gan Quaker Oats gysylltiadau cadarnhaol e.e. ymddiriedaeth, uniondeb, iachus
Cynyddu i'r eithaf yr ymwneud â gweithredu yn yr ardal
Radio 4? Cyfryngau eraill
Cysylltu Crynwriaeth â materion cyhoeddus eraill
Y We ac yn y blaen (i sefydlu uniondeb Crynwriaeth; i gynyddu ymwybyddiaeth o Grynwriaeth)
Cysylltu gweithredu dros heddwch â Chrynwriaeth i gynyddu ymwybyddiaeth ohoni.
Digwyddiadau lleol – hyrwyddo presenoldeb y Crynwyr: Masnach Deg, Ffeiriau Gwyrdd, Ffeiriau Elusennol (codi arian er budd achosion elusennol eraill?)
Defnyddio Tai Cwrdd lle posibl – cyhoeddusrwydd; 'teimlo'?

Datblygiadau o rai o'r pwyntiau uchod mewn sgyrsiau

Yn hytrach na gwadu'r cysylltiad â Q. Oats, adeiladu arno: e.e. sticeri car yn dweud "Nid jest Q. Oats … ond hefyd …"
Yng Nghymru, cysylltu gwaith mewn ysgolion â'r Cwricwlwm Cymreig, e.e. "Yr Ystafell Ddirgel"
Manteisio ar gyfryngau lleol (a chenedlaethol) e.e. ymateb i ddadleuon neu newyddion perthnasol gyda chyfraniad o safbwynt y Crynwyr sy'n dangos ein bod yn agored, yn weithredol, yn cymryd rhan ac yn y blaen. Felly, mae angen mwy o bobl sy'n barod i gael eu cyfweld, ysgrifennu llythyrau at olygyddion, ymateb ar wefannau adborthi, ac yn y blaen. (Er enghraifft: y ddadl bresennol ynglŷn ag Exit yn defnyddio Tŷ Cwrdd Caerdydd - rhyddhaodd Cyfeillion Caerdydd ddatganiad ardderchog i'r Wasg a chafodd sawl un ei gyfweld gan y cyfryngau lleol. Dylid ystyried y math yma o beth fel cyfle yn hytrach na bygythiad.)
Dylai pob Cwrdd lleol hel rhestr o 'Gyfeillion Cyfeillion' – pobl sy'n fodlon derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau a hyrwyddir gan Grynwyr lleol a phasio'r wybodaeth ymlaen.
Mewn Gwyliau ac yn y blaen, yn ogystal â phresenoldeb gyda phabell, baner, gwybodaeth a rhywun i ateb cwestiynau, dylid hefyd gynnal digwyddiad ar ffurf Quaker-Quest e.e. dwy awr neu hyd yn oed 90 munud ar 'Fy siwrnai ysbrydol' gyda thri siaradwr, grwpiau bach, sesiwn holi ac ateb agored a Chwrdd Addoli 30 munud. Efallai dylem ddatblygu templed i hyn fel y bydd yn hawdd i nifer bach o bobl ei drefnu.